| **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru** | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Dydd Iau 6ed o Ragfyr 2018 |
| **Amser y Cyfarfod:** | 9:00am - 17:00pm |
| **Lleoliad y Cyfarfod:** | Manor Suite, Manor House, Celtic Manor |
| **Cadeirydd** | Andy Richardson |

**YN BRESENNOL:**

| **Llywodraeth Cymru:** | **Sefydliadau:** |
|---|---|
| Keith Smyton (KS)<br>Dave Morris (DM)<br>David Lloyd-Thomas (DLT)<br>Suzanne Pomeroy (SP)<br>Anne Reynish (AR2)<br>Nicholas Shilton (NS)<br>Mark Williams (MW)<br>Lara Israel (LI)<br>Jessica Bearman (JB)<br><br>**Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd:**<br>James Hicks (JH) – Yn dirprwyo i<br>Justine Fosh<br>Ro Roberts (RR) – Cyfathrebu | Andy Richardson (AR) – Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru<br>Huw Thomas (HT) – Aelod o'r Bwrdd<br>David Lloyd (DL) – Dirprwy Gadeirydd<br>Norma Barry (NB) – Aelod o'r Bwrdd<br>James Wilson (JW) – Aelod o'r Bwrdd<br>Katie Palmer (KP) – Aelod o'r Bwrdd<br>Annitta Engel (AE) – Aelod o'r Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:**<br>Justine Fosh (JF)<br>Alison Lea-Wilson (AW) | |

| Rhif | Eitemau ar yr Agenda |
|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>• Nododd y cadeirydd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan AW a JF.<br>• Cyflwynodd y cadeirydd MW ac estyn croeso iddo. Bydd MW yn cynorthwyo gyda gwaith sgiliau a rhywfaint o waith y bwrdd.<br>• Estynnodd y cadeirydd groeso i JH hefyd, a oedd yno yn lle JF, i ddiweddaru’r bwrdd am y cynllun strategol ar ran y Ffrwd Waith Pobl a Sgiliau.<br>• Croesawodd y cadeirydd JB sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru.<br>• Soniodd y cadeirydd yn gryno am gynnwys y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| | • Roedd Leslie Griffiths AC, y Gweinidog dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ("y Gweinidog") wedi ail-benodi Aelodau'r Bwrdd i'w rôl. Roedd hi'n hapus â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Cytunodd Aelodau'r Bwrdd eu bod yn fodlon cael eu hail-benodi i'w rôl.<br>• Nodwyd llwyddiant y digwyddiad fin nos a gynhaliwyd i lansio'r Strategaeth Diodydd. Cafodd NB ei chanmol am ei hymrwymiad ac am ei gwaith rhagorol. Canmolodd NB y strategaeth ar y cynnwys a pha mor arwyddocaol ydoedd i'r diwydiant. |
| **2.** | **Cyflwyniad Blas Cymru/Taste Wales**<br>• Croesawyd **AR2**. Roedd digwyddiad blaenorol Blas Cymru wedi cael ei ganmol am ei lwyddiant. Nodwyd bod angen i'r Bwrdd fod yn rhan ganolog o'r digwyddiad a bod angen gwybod beth yw'r ffordd orau o ychwanegu gwerth at y digwyddiad.<br>• Cafodd Aelodau'r Bwrdd fynd ar daith o amgylch y Celtic Manor. Roedd hyn yn gyfle iddynt ymgyfarwyddo â´r gwahanol rannau lle byddai digwyddiad Blas Cymru yn cael ei gynnal.<br>• Rhoddodd **AR2** gyflwyniad i'r Bwrdd. Mae'r digwyddiad wedi cael nawdd ardderchog hyd yn hyn, a chafodd hyn ei gofnodi.<br>• Cafwyd trafodaethau ynghylch y Bwrdd a'r cinio VIP y noson cyn y digwyddiad ar 19/03/2019. Mae'r Gweinidog wedi rhoi gwahoddiad personol i'r rheini a fydd yn bresennol. Mae'n bwysig iawn bod y Bwrdd yn ymgysylltu'n llawn â'r prynwyr a'r buddsoddwyr.<br>• Rhoddodd **AR2** ddadansoddiad o wahanol elfennau'r digwyddiad i'r Bwrdd. Byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn tri rhan;<br>1. Cwrdd â'r Prynwr<br>2. Cynhadledd<br>3. Ardal Arloesi a Sgiliau<br><br>• Cyflwynodd **AR2** elfen 'Sêr Disglair' y digwyddiad. Roedd yn cael ei ddisgrifio fel: busnesau newydd llawn addewid ond nad oeddent yn gallu bodloni galw prynwyr ar raddfa fawr ar hyn o bryd.<br>• Cafwyd trafodaeth am elfen 'Sêr Disglair' y digwyddiad. Daeth ambell |

| | |
|---|---|
| | fater i'r amlwg o safbwynt pa mor ymarferol oedd prisiau'r digwyddiad i gwmnïau llai. Nodwyd, o brofiad blaenorol, ei bod yn bwysig codi tâl ar y rhai fydd yn dod i'r digwyddiad;<br>a) Er mwyn sicrhau eu presenoldeb (gan fod y gost yn sylweddol i Lywodraeth Cymru)<br>b) Oherwydd os bydd y rheini sy'n dod i'r digwyddiad wedi talu i fod yno, bydd hyn yn ychwanegu mwy o werth i'r digwyddiad.<br>• Cytunwyd y dylid ystyried ysgoloriaeth ar gyfer uchafswm o bum busnes a oedd yn 'Sêr Disglair' ac yn bodloni'r meini prawf. Nodwyd y byddai hyn yn gyfle gwych i'r Bwrdd gael sylw yn y wasg.<br>• Nododd y Bwrdd nad oedd yn fodlon â phennawd y digwyddiad, sef 'Cyflymach – Callach – Glanach' (*Faster – Smarter – Cleaner*). Cytunwyd y dylid edrych ar hyn eto, ac y byddai **AR2** yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Roedd y Bwrdd yn cytuno bod y term 'mwy gwyrdd' yn fwy addas.<br>• Cytunwyd y byddai **AE** yn eistedd ar banel beirniaid 'Sêr Disglair'.<br>• Soniodd y Bwrdd am bwysigrwydd yr ardal arloesi a sgiliau, gan roi pwyslais ar sut mae'r gromen (y *dome*) yn portreadu bwyd yng Nghymru.<br>• Cytunwyd y byddai Aelodau'r Bwrdd yn gwesteio bwrdd yn y cinio VIP. Bydd Aelodau'r Bwrdd yn cael briff gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr unigolion y byddant yn eu gwesteio; y bwriad yw y bydd Aelodau'r Bwrdd yn aros gyda'r unigolion hynny ar hyd yr amser. Y brif neges i'w chyfleu yw bod 'Cymru'n cael ei hadnabod fel gwlad gyfeillgar'. Mae angen dangos hyn drwy ymrwymiad y Bwrdd yn y digwyddiad.<br><br>Codwyd y pwynt nad oedd unrhyw adwerthwyr mawr yn y DU wedi cael gwahoddiad i'r cinio VIP. Mae'r Bwrdd yn argymell y dylai'r Gweinidog gysylltu ag adwerthwyr yn y DU i weld a allant ddod i'r digwyddiad. |
| **3.** | **Cynllun Gweithredu 2**<br>Rhoddodd **DLT** ac **NS** gyflwyniad ar gynnydd Cynllun Gweithredu 2 (CG2), sef strategaeth hirdymor yr Is-adran Fwyd a'r Bwrdd. Dywedodd y Cadeirydd |

| | |
|---|---|
| 4. | wrth Aelodau'r Bwrdd fod angen i adborth ar CG2 fod yn glir a chryno, ac ennyn diddordeb.<br>Roedd rhai materion allweddol wedi dod i'r amlwg, a chawsant sylw fel rhan o drafodaeth gydag Aelodau'r Bwrdd. Rhoddwyd adborth adeiladol i swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt allu cymryd camau dilynol.<br>Materion Allweddol<br>• Mae angen i'r datganiad am y weledigaeth gael cyfeiriad clir.<br>• Mae angen i'r dangosyddion perfformiad allweddol fapio cyfeiriad.<br>• Mae hyn a hyn o dargedau i ymdrin â phopeth, er enghraifft, trosiant a gwerth ychwanegol gros y Sector Bwyd i barhau i dyfu, achrediad SALSA, a sgôr o 4 neu ragor yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.<br>• Mae angen i'r cyfarwyddyd fod yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a'r diwydiant.<br><br>Cytunwyd ar y targedau a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Newidiwyd rhyw fymryn ar y geiriad mewn ambell le. Nodwyd nad oedd y Bwrdd yn dymuno cael ei weld fel llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru a'i pholisïau. Yn hytrach na hynny, roedd am gael ei weld fel corff a oedd yn cynrychioli'r diwydiant, ac yn gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth. Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cymru.<br><br>• Codwyd pwyntiau am y ffaith nad oedd sôn am fusnesau newydd yn y ddogfen ymgynghori.<br>• Mae angen i ganran y gyflogaeth gael ei nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori.<br>• Roedd Aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod angen i'r weledigaeth gyfleu dyheadau'r Bwrdd yn glir. Dywedwyd yn glir ei bod yn rhaid i'r datganiad cenhadaeth gynnwys disgrifiad o bwrpas y Bwrdd.<br><br>Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm am ei waith caled a dywedodd y bydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cefnogi'r ddogfen. |
| **4.** | **Trafodaeth am Strategaeth y Bwrdd** |

| | |
|---|---|
| | • Rhoddodd y Bwrdd sylw i strategaeth 2018 drwy holi; oedd y camau gweithredu wedi cael eu cyflawni? A yw'r camau gweithredu blaenorol yn dal yn berthnasol ar gyfer 2019?<br>• Cytunwyd y byddai'r Ffrwd Waith Busnes a Buddsoddi yn parhau, a bod yr amcanion yn dal yn berthnasol.<br>• Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r angen i'r Bwrdd wella'i gysylltiadau â chyllidwyr.<br>• Nodwyd mai dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael i ddangos pa effaith y bydd prinder cyllid gan yr UE (yn sgil Brexit) yn ei chael ar gwmnïau bwyd yng Nghymru.<br>• Byddai'r Ffrwd Waith Pobl a Sgiliau yn parhau. Nodwyd y gallai'r Bwrdd ddylanwadu ar faterion yn ymwneud â sgiliau yn y sector lletygarwch, ond na allai ysgwyddo perchnogaeth drostynt. Cytunwyd y gallai'r Bwrdd fod yn rhan o'r gwaith o wneud yn siŵr bod isadrannau'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd yn ddi-fwlch. Nodwyd bod cydweithio'n un o themâu trawsbynciol y Bwrdd.<br>• Cafwyd trafodaethau ynglŷn â pha mor berthnasol yw'r sgiliau sy'n cael eu dysgu, a'r effaith uniongyrchol mae hynny'n ei chael ar ddiwydiant. Mae angen sgiliau sy'n wirioneddol berthnasol i'r diwydiant, ac mae angen sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddarparu yn bodloni gwir anghenion y diwydiant. Trafodwyd y dylai'r diwydiant arwain ar ei anghenion ei hun; rhannu arferion gorau, a manteisio i'r eithaf ar lwyddiannau Partneriaethau Sgiliau'r Diwydiant sydd eisoes ar waith.<br>• Nodwyd bod angen datblygu Diwylliant Sector Bwyd er mwyn rhoi hwb i dwf y gweithlu. Byddai trafodaethau ynglŷn â gwledydd fel yr Eidal ac Iwerddon, er enghraifft, a'u prosesau ar gyfer datblygu eu Diwylliant Bwyd, fod yn astudiaeth achos i Gymru ymchwilio iddi.<br>• Mae angen edrych o'r newydd ar gynnydd yr addewid sgiliau, a sut mae'n cael ei fonitro.<br>• Trafodwyd y Ffrwd Waith Cwsmeriaid a Marchnadoedd, a nodwyd y byddai Arloesi'n cael ei ychwanegu ati. Cytunwyd bod angen cael digwyddiad 'Tuck In 2' er mwyn cael cyfle i lobïo rhagor o ymgysylltu |

| | |
|---|---|
| | gyda chlystyrau. Byddai'r Bwrdd yn hoffi cynnal cynhadledd arloesi yn 2019 hefyd.<br>• Mae angen cael gwell cysylltiad gyda digwyddiadau ehangach sy'n ymwneud â 'Chymru', gan ganolbwyntio'n bennaf ar chwilio am gyfleoedd o amgylch marchnadoedd Llundain.<br>• Nodwyd bod angen cadarnhau penderfyniadau strategol am gefnogaeth y Bwrdd i amrywiol ddigwyddiadau.<br>• Rhoddodd MW gyflwyniad i'r Bwrdd am gynllun y Dangosfwrdd Cyflawni newydd, sydd yn yr arfaeth. Cytunodd y Bwrdd ei fod yn gynllun gwell, a rhannodd sylwadau adeiladol â MW ynghylch golygu elfennau ohono. Nodwyd pwysigrwydd y system goleuadau traffig, er mwyn gwneud yn siŵr bod modd gweld yn glir beth sy'n cael ei gyflawni a beth sydd angen rhagor o sylw wrth edrych ar y Dangosfwrdd. Cytunwyd y gallai fod yn fuddiol petai MW yn cynnwys llinellau darparu diwydiant bwyd Llywodraeth Cymru yn y Dangosfwrdd Cyflawni.<br>• Edrychodd Aelodau'r Bwrdd ar y Cylch Gorchwyl. Trafodwyd geiriad y ddogfen. Cytunwyd bod angen ei ddiweddaru ac edrych ar y ddogfen eto yn nes ymlaen.<br>• Mae angen trafod penodi Aelodau'r Bwrdd yn yr hirdymor – mae bylchau o ran sgiliau yn y Bwrdd ar hyn o bryd. Bydd proses benodi newydd yn digwydd yn ystod tymor yr haf/hydref 2019.<br>• Rhoddodd RR y wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu i'r Bwrdd. Cafodd y Bwrdd wybod y byddai'r Cadeirydd yn ymddangos mewn cylchgrawn lleol newydd (Taste/Blas), mewn eitem a fyddai'n cael sylw dros ddwy dudalen. |
| **5.** | **Unrhyw Fater Arall**<br>Rhannodd **KP** y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae hi wedi bod yn ei wneud gyda Veg Power. Yn gryno, roedd y defnyddiwr wedi sefydlu cwmni ar wahân yn defnyddio llysiau fel brand. Roedd dwy filiwn o bunnoedd wedi cael ei fuddsoddi ar hysbysebu, gan ITV, a bydd yr hysbysebion yn cael eu dangos pan fydd rhaglenni teledu poblogaidd ar y teledu. Roedd y Bwrdd yn |

| | |
|---|---|
| | falch o longyfarch **KP** ar y llwyddiant hwn. |